**Rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol**

*Diweddariad ar Gyflawni Cynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1 a Chynllun Gweithredu Arfaethedig Cam 2*

## Cynnwys


Y Cefndir ..... 1

Cam 1 – Gweithgareddau'r cynllun gweithredu cychwynnol ..... 2

Cam 1: Canlyniadau cyflawni'r cynllun gweithredu cychwynnol ..... 3

Gweithredu'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol: Pontio o Gam 1 i Gam 2 ..... 16

Cynllun Gweithredu Cam 2 (2026-2028) ..... 18


# Y Cefndir

Pan oedd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ar waith, roedd 46 o feysydd polisi lle'r oedd cydweithio. Un o'r meysydd polisi yw'r trefniadau cenedlaethol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Grŵp Arbenigol i gefnogi'r uchelgais ar y cyd i greu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru, sydd ar gael am ddim pan fo'i angen, gyda gofal cymdeithasol yn parhau fel gwasanaeth cyhoeddus.

Cyhoeddwyd ffurfio Grŵp Arbenigol mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 21 Chwefror 2022. Cyfarfu'r Grŵp Arbenigol rhwng mis Chwefror a mis Medi 2022 a pharatowyd Adroddiad Argymhellion i'r Gweinidogion ac i'r Aelod Dynodedig ar y pryd. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ar 10 Tachwedd 2022. Mae 46 o argymhellion pellgyrhaeddol yn adroddiad y Grŵp Arbenigol, sydd hefyd yn tynnu sylw at rôl hanfodol ymgynghori ac ymgysylltu pellach â'r sector i sicrhau bod sylfeini Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yn cael eu cynhyrchu ar y cyd, gan sicrhau yn y pen draw fod anghenion y presennol a'r dyfodol yn cael eu diwallu.

Mae'r Grŵp Arbenigol yn cydnabod y byddai'r weledigaeth a gyflwynwyd yn eu hadroddiad yn debygol o fod angen dull graddol, gyda chamau datblygu a chyflawni sy'n rhychwantu cyfnod o 10 mlynedd o leiaf. Cytunodd y Gweinidogion a'r Aelod Dynodedig ar y pryd i'r cyfeiriad teithio hwn a chawsant eu perswadio gan yr argymhellion yn yr adroddiad. Felly, lluniwyd Cynllun Gweithredu Cychwynnol a'i gyhoeddi ar 14 Rhagfyr 2023, a chyhoeddwyd hyn mewn Datganiad Ysgrifenedig yr un diwrnod.

Mae cynnal rhaglen gyflawni tri cham yn cyd-fynd â'r weledigaeth a nodir yn adroddiad y Grŵp Arbenigol, gyda phob cam o'r cynllun cyflawni yn cael ei symud ymlaen trwy gydgynhyrchu ac ymgysylltu â'r sector, pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a'u gofalwyr. Bydd ymgysylltu parhaus yn cael ei gynnal drwy gydol pob cam cyflawni yn y rhaglen hon.

**Rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol**
*Diweddariad ar Gyflawni Cynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1 a Chynllun Gweithredu Arfaethedig Cam 2*

# Cam 1 – Gweithgareddau'r cynllun gweithredu cychwynnol

- Roedd y cynllun gweithredu cychwynnol yn cyflawni sawl un o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio, ac yn cynnwys ymchwil ar gyfer camau yn y dyfodol:
- Rhaglen ailgydbwyso gofal a chymorth
  - Sefydlu Swyddfa Genedlaethol ar gyfer gofal a chymorth yn Llywodraeth Cymru.
  - Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth
  - Cryfhau gweithio mewn partneriaeth ac integreiddio
- Gan weithio gyda'r Fforwm Gwaith Teg, datblygwyd egwyddorion fframwaith dilyniant ac uned bargeinio ar y cyd gwirfoddol, gan ystyried hefyd dâl salwch a chontractau dim oriau
- Datblygu set ddata perfformiad a chanlyniadau cenedlaethol
- Datblygu modelau newydd o ofal integredig drwy'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a darparu cyfleoedd i awdurdodau lleol fuddsoddi mewn darpariaeth gofal preswyl i oedolion drwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso.
- Ystyried opsiynau mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus ar ôl gweithredu canllawiau wedi'u diweddaru ynghyd â datblygiadau fel Taliadau Cyfarwyddwyr a fframwaith perfformiad.
- Creu fframwaith cenedlaethol Trosolwg o'r Farchnad i helpu comisiynwyr i nodi, deall a rhoi mesurau lliniaru perthnasol ar waith o fewn y farchnad gofal cymdeithasol i wella gwydnwch a chymedroli risg.
- Ymchwil
  - Ystyried opsiynau posibl sy'n ymwneud â thalu am ofal, asesu newidiadau demograffig; modelu/ailfodelu amcanestyniadau ariannol; asesu effeithiau, risgiau a chanlyniadau anfwriadol posibl y system
  - Deall yn well beth yw effeithiau ariannol a gweithredol gofal sydd am ddim pan fo'i angen, gan gyfeirio'n benodol at y tâl wythnosol am ofal cartref a'r terfyn cyfalaf mewn gofal preswyl
  - Dechrau ar waith ynghylch ymarferoldeb creu methodolegau cenedlaethol o ran ffioedd, gan gynnwys ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal.
  - Archwilio opsiynau o ran datblygu fframwaith atebolrwydd i gyd-fynd â chyllid gofal cymdeithasol.

Mae'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth wedi cydlynu Cam 1 y cynllun Gweithredu Cychwynnol, gan gydweithio â rhanddeiliaid i gyflawni 25 o weithgareddau a 4 maes ymchwil. Bydd yr holl waith yn dod i ben erbyn mis Mawrth 2026.

Mae'r adran nesaf yn darparu diweddariad cynnydd ar y tasgau a'r ymchwil hyn hyd at fis Mawrth 2026.

# Cam 1: Canlyniadau cyflawni'r cynllun gweithredu cychwynnol

## Adeiladu'r sylfaen ar gyfer Swyddfa Genedlaethol

*Sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth*

Lansiwyd y Swyddfa Genedlaethol yn swyddogol mewn Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2024. Mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi'i chynllunio fel swyddogaeth sy'n wynebu'n allanol ac mae'n cydweithio'n agos â'r sector i wella canlyniadau i bobl Cymru. Mae hefyd yn cynnig arweinyddiaeth genedlaethol gadarn ac yn gweithio ochr yn ochr â Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r Swyddfa Genedlaethol hefyd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

Gan weithredu o fewn Llywodraeth Cymru, mae'r Swyddfa Genedlaethol yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol gref a chyfeiriad strategol sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n cefnogi blaenoriaethau a safonau cenedlaethol ac yn cydweithio â 22 awdurdod lleol Cymru, rhanddeiliaid, y GIG, unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth, eu gofalwyr, y gweithlu gofal cymdeithasol, cyrff proffesiynol, a phartneriaid allweddol eraill. Mae Grŵp Cynghori Strategol allanol yn cefnogi trefniadau llywodraethiant cadarn. Er bod yr aelodau'n darparu cyngor strategol a beirniadaeth adeiladol i'r Swyddfa Genedlaethol a'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, mae'r awdurdod gwneud penderfyniadau yn parhau i fod gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Ystyriwyd y flwyddyn gyntaf yn flwyddyn bontio, a manylir ar y cyflawniadau yn yr adroddiad blynyddol cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at gynnydd cadarnhaol o ran sefydlu'r Swyddfa Genedlaethol a gosod y sylfaen ar gyfer datblygu'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol yng Nghymru. Wrth i'r Swyddfa Genedlaethol barhau i esblygu, bydd yn hwyluso mwy o arloesi, gwella a thrawsnewid ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Ehangodd y cylch gwaith yng nghanol 2025 i gynnwys Diogelu, y Gweithlu Gofal Cymdeithasol, a Llwybrau Gofal. Mae'r cynnydd yn cynnwys gwella'r broses o gasglu data gofal cymdeithasol, datblygu dealltwriaeth gliriach o ddarparu gwasanaethau, a chefnogi'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol i gryfhau llais y sector.

Mae cynllun ymgysylltu ehangach wedi'i roi ar waith i weithio gyda phartneriaid cyflenwi, y gweithlu a'u cynrychiolwyr, a defnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr, eu teulu a'u ffrindiau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd yr ymrwymiadau cenedlaethol yn cynnwys digwyddiad bord gron yn y Sioe Frenhinol a sesiwn holi ac ateb yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r gweithgareddau hyn yn codi proffil gofal cymdeithasol ac yn meithrin trafodaeth ar ddatblygu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru. Mae ymgysylltu pellach ar y gweill gyda Llais i gynnal allgymorth cymunedol wedi'i dargedu gyda grwpiau allweddol.

*Penodi Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol*

Mae Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol, a gynhelir gan BASW Cymru ac a ariennir gan y Swyddfa Genedlaethol, wedi'i benodi i wasanaethu fel catalydd ar gyfer newid trawsnewidiol.

Crëwyd y rôl yn dilyn digwyddiadau gwrando dan arweiniad Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru, mewn ymateb i bryderon am fylchau rhwng egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a phrofiadau bywyd. Pwysleisiodd dros 300 o gyfranogwyr fod heriau parhaus wrth drosi gwerthoedd y Ddeddf yn gamau ymarferol, gan dynnu sylw at yr angen am ddulliau gwrth-hiliol a diwylliannol ymatebol cryfach, safonau cyson, gwell defnydd o ddata, ac arweinyddiaeth weladwy.

Y prif nod yw cefnogi Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru o fewn gwaith cymdeithasol drwy:

- Hyrwyddo ymarfer gwaith cymdeithasol ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau sy'n lleiafrifoedd o ran hil.
- Adeiladu gweithlu diwylliannol cymwys, gwrth-hiliol drwy hyfforddiant a datblygu arweinyddiaeth, gwell systemau data, llwybrau gyrfa cynhwysol, hyfforddiant wedi'i dargedu, a chefnogaeth bwrpasol i weithwyr cymdeithasol lleiafrifol.
- Cynghori ar asesiadau effaith, cynlluniau gwrth-hiliol lleol, a gwerthusiadau gwasanaethau.
- Hyrwyddo arferion gwaith cymdeithasol gwrth-hiliol ledled Cymru.

Mae gweithgareddau allweddol yn cynnwys ymgysylltu ag arweinwyr a chyrff proffesiynol i ddylanwadu ar newid systemig, codi ymwybyddiaeth, nodi cyfleoedd hyfforddi, dangos cynnydd drwy werthusiadau, a hyrwyddo arferion gorau ar gyfer cymunedau sy'n lleiafrifol o ran hil. Mae'r swydd yn cael ei chefnogi gan rwydwaith o bobl â phrofiad bywyd, rheoleiddwyr, a phartneriaid.

*Cydgynhyrchu, ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac arweinyddiaeth*

Mae ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac egwyddorion cynllunio cenedlaethol yn ganolog i ddatblygu'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, felly mae'r gwaith hwn yn parhau.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, cynigiwyd y dylid cynnal cyfres o weithgareddau gwrando a sesiynau ymgysylltu cyn dechrau ar ymgyrch ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae'r Cynllun Ymgysylltu ar gyfer y Swyddfa Genedlaethol yn 2025-26 wedi bwrw ymlaen â nifer o weithgareddau mewn cydweithrediad agos â phobl a'r sector.

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau yn ystod haf 2025, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau sector amrywiol er enghraifft yn y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol, a ddarparodd gyfleoedd i gasglu syniadau rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar flaenoriaethau ar gyfer egwyddorion cynllunio cenedlaethol, a chodi proffil gofal cymdeithasol fel rhan o waith ymwybyddiaeth ddiwylliannol cynnar.

*Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth*

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol, a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn gwasanaethu fel Cod Ymarfer ar gyfer comisiynu gofal a chymorth gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ac ymddiriedolaethau'r GIG. Cafodd ei ddatblygu drwy'r Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth, a chafodd ei osod gerbron y Senedd ar 11 Mehefin a'i gyhoeddi ar 24 Gorffennaf, gan ddod i rym o 1 Medi 2024.

Mae gweithrediad a datblygiad parhaus y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei arwain gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth. Er mwyn hwyluso cydweddiad ag egwyddorion a safonau cenedlaethol y Fframwaith Cenedlaethol, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi sefydlu a chynnal pecyn cymorth o adnoddau ar gyfer comisiynwyr, sydd ar gael yn gyhoeddus. Cafodd ei lansio ar 1 Awst 2024 a chaiff ei gynnal ar blatfform cymunedau Gofal Cymdeithasol Cymru. Yn ogystal, mae Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wedi cael 48 o leoedd wedi'u hariannu ar gyfer cymwysterau Lefel 5 i wella sgiliau a llwyddiant wrth weithredu'r safonau comisiynu gofynnol.

Er mwyn cefnogi'r gweithredu ymhellach, ym mis Hydref 2025, trefnodd a chyflwynodd y Swyddfa Genedlaethol dair cynhadledd fach undydd ar gyfer comisiynwyr. Roedd y digwyddiadau hyn yn galluogi comisiynwyr i adolygu'r cynnydd, mireinio'r offeryn cymorth gweithredu (hunanasesu), a thrafod adrodd drwy adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Swyddfa Genedlaethol hefyd yn datblygu damcaniaeth newid i werthuso effaith y Cod a llywio adolygiadau yn y dyfodol. Bydd cymorth parhaus yn cael ei ddarparu i

helpu comisiynwyr i barhau i ddatblygu eu harferion yn unol â'r egwyddorion a'r safonau a amlinellir yn y Cod Ymarfer.

## Cydgynhyrchu gofal gyda dinasyddion yng Nghymru

*Gofyniad diweddaru ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol*

Cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr i adolygu'r gofynion ar gyfer adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol fel yr amlinellir yn Rhan 8 o'r Cod Ymarfer ar Rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Pwrpas y gwaith hwn oedd sicrhau bod gofynion adrodd yn parhau i fod yn glir, yn gymesur ac yn gyson â fframweithiau deddfwriaethol a pholisi ehangach sy'n llywodraethu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn ymdrin yn benodol â'r darpariaethau adrodd blynyddol a gynhwysir yn Rhan 8 o'r Cod, gan werthuso eu heffeithiolrwydd o ran hybu atebolrwydd, sicrwydd a thryloywder, yn ogystal â'u gallu i hwyluso adrodd unffurf ac ystyrlon ar draws awdurdodau lleol gan barhau i fod yn addas i'r cyd-destun lleol.

Mae'r gofynion wedi'u diweddaru bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar swyddogaeth yr adroddiad blynyddol fel mecanwaith statudol ar gyfer atebolrwydd a sicrwydd. Maent yn egluro disgwyliadau y dylai adroddiadau gyflwyno naratif cydlynol ynghylch sut mae awdurdodau lleol yn gweinyddu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac yn gwella canlyniadau i unigolion sy'n cael gofal a chymorth. Sefydlwyd disgwyliadau uwch ynghylch dangos ymgysylltiad, sy'n gofyn am adroddiadau blynyddol i ddangos sut mae safbwyntiau a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr, darparwyr a phartneriaid yn llywio eu cynnwys.

Yn ogystal, sicrhawyd mwy o gydweddiad â fframweithiau perfformiad, ansawdd, comisiynu ac arolygu presennol i leihau dyblygu, cryfhau cysondeb ar draws rhwymedigaethau adrodd, a galluogi awdurdodau lleol i drosoli tystiolaeth a data cyfredol fel y bo'n briodol. Mae'r gofynion diwygiedig yn tanlinellu arferion llywodraethiant a chraffu, gan gynnwys cyflwyno i aelodau etholedig, rhannu trefniadau gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol, a chyhoeddi i hyrwyddo tryloywder.

Mae'r gofynion wedi'u diweddaru wedi'u cynllunio i feithrin mwy o unffurfiaeth yn adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru, tra'n cadw hyblygrwydd o ran strwythur a chyflwyniad adroddiadau. Nod y newidiadau hyn yw atgyfnerthu rôl yr adroddiad blynyddol fel dogfen glir, hygyrch sy'n dangos cydymffurfiaeth statudol, partneriaethau cydweithredol, ac effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau i'r rhai sy'n derbyn gofal.

*Trosolwg cenedlaethol ar Mwy na Geiriau*

Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn cydnabod rôl y Gymraeg a pharchu dewis iaith unigolion. Mae ffocws y gwaith yn y maes hwn wedi bod ar gryfhau'r cysylltiadau ar draws y sector gofal cymdeithasol a chysylltu â gwaith grŵp cynghori Mwy Na Geiriau, y mae cynrychiolydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn aelod ohono. Mae'r grŵp cynghori yn darparu cyngor a heriau i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun 5 mlynedd Mwy na geiriau , gan rannu arbenigedd ac arferion gorau i wella gwasanaethau dwyieithog ar draws sectorau. Cyhoeddir adroddiadau cynnydd yn flynyddol.

Drwy swyddogaeth Dadansoddi ac Arloesi'r Swyddfa Genedlaethol, mae data hefyd wedi'i gasglu ar bob un o'r asesiadau oedolion, plant a gofalwyr a lle roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol, a dderbyniwyd y cynnig hwnnw ac a ddigwyddodd yr asesiad yn newis iaith yr unigolyn. Mae canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cynnwys gofyniad i egluro sut mae awdurdodau lleol yn arfer eu swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys cynnydd yng nghyd-destun Mwy Na Geiriau a'r cynnig rhagweithiol.

Wrth i'r gweithgareddau hyn fynd rhagddynt, mae'r Swyddfa Genedlaethol wedi cefnogi mecanwaith trosolwg cenedlaethol i fonitro'r ffordd y caiff y strategaeth ei rhoi ar waith a bydd yn parhau i weithio gyda chydweithwyr a phartneriaid i sicrhau bod gwybodaeth am ofal cymdeithasol yn rhan o adroddiadau blynyddol Mwy Na Geiriau.

## Cefnogi a gwerthfawrogi'r gweithlu

*Fforwm Gwaith Teg*

Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn grŵp partneriaeth gymdeithasol tairochrog sydd wedi ymrwymo i ymgorffori gwaith teg a gwella telerau ac amodau i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Mae'r fforwm yn bodoli i alluogi cynrychiolwyr undebau llafur, cyflogwyr, rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru i weithio gyda'i gilydd i ddylanwadu ar flaenoriaethau a pholisïau cenedlaethol ynghylch gwaith teg yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Un o egwyddorion sylfaenol y fforwm yw'r gydnabyddiaeth y bydd cyflawni canlyniadau gwaith teg gwell yn gwella bywydau gweithwyr, yn gwella darpariaeth gofal o safon, ac yn cryfhau gwydnwch hirdymor y sector.

*Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol*

Drwy waith y Fforwm Gwaith Teg, sefydlwyd a chyhoeddwyd y Bartneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn 2025, a hi oedd y cyntaf o'i math yn y DU i ddod â llywodraeth, cyflogwyr ac undebau at ei gilydd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bartneriaeth wedi datblygu polisïau enghreifftiol ar gyfer y

gweithlu, yn enwedig y sector annibynnol. Mae hwn wedi bod yn gam pwysig i hybu dulliau polisi mwy cyson a gwell amodau gwaith ar draws y sector. Cyhoeddwyd y cyntaf o'r polisïau enghreifftiol hyn https://www.llyw.cymru/partneriaeth-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-polisiau-enghreifftiol-ar-gyfer-y-sector-gofal ym mis Chwefror 2026. Mae'r dogfennau polisi enghreifftiol hyn yn helpu darparwyr gofal cymdeithasol i weithredu arferion cyflogaeth teg a chyson, y gellir eu lawrlwytho a'u haddasu i weddu i drefniadau lleol.

*Fframwaith Tâl a Dilyniant*

Dan arweiniad Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydlwyd is-grŵp Tâl a Dilyniant ym mis Hydref 2024 i gryfhau fframwaith drafft a oedd yn bodoli'n barod, gan ddefnyddio'r profiad a'r wybodaeth enfawr a oedd gan yr aelodau a chan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y fframwaith drafft a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad ailgydbwyso gofal a chymorth a ddaeth i ben ym mis Awst 2023. Bydd y fframwaith gwirfoddol yn helpu darparwyr i gynnig cyflog ac amodau cyson i'r gweithlu, tra'n dangos cynnydd clir a chyfleoedd datblygu, gan helpu i wella recriwtio a chadw yn y sector. Cyhoeddodd y Fforwm fframwaith tâl a dilyniant ym mis Chwefror 2026.

*Datblygu Academi Gofal Genedlaethol i Gymru*

Gan adeiladu ar y dystiolaeth gref hon o'r hyn sy'n gweithio, rydym bellach yn ymrwymo £1.5 miliwn i ddechrau cam cyntaf Academi Gofal Genedlaethol Cymru, gan ein galluogi i roi dulliau profedig ar waith, cryfhau'r sylfeini presennol, ac ymestyn y manteision i fwy o bobl a chymunedau ledled Cymru.

*Cefnogaeth ehangach i'r gweithlu gofal cymdeithasol*

Er nad yw'n weithgaredd a ymddangosodd yn wreiddiol yng Nghynllun Gweithredu Cam 1, mae datblygu Academi Gofal Cymdeithasol Genedlaethol Cymru a lansio ymgynghoriad ym mis Chwefror 2026 ar Gorff Negodi Gofal Cymdeithasol i ddatblygu Cytundebau Cyflog Teg i weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn tynnu sylw at rôl y Swyddfa Genedlaethol yn cefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol ac yn symud pethau ymlaen mewn meysydd allweddol i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol fel sylfaen gadarn ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

*Cynorthwywyr Personol a Thaliadau Uniongyrchol*

Ers pasio Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025, a hyd nes bod is-ddeddfwriaeth ar waith, mae gwaith wedi mynd rhagddo i alluogi i daliadau uniongyrchol i oedolion sy'n cael gofal iechyd parhaus i fod yn gyfreithiol bosibl yng Nghymru. Mae hwn yn opsiwn a all gryfhau llais, dewis a rheolaeth unigolyn drwy ganiatáu iddynt reoli eu trefniadau gofal eu hunain, gan gynnwys cyflogi cynorthwywyr personol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer rheoliadau i lywio'r gwaith o ddrafftio is-ddeddfwriaeth dros gyfnod o 12 wythnos, gan lansio ganol mis Gorffennaf a chau ddechrau mis Hydref 2025. Gofynnwyd am farn ar gynigion ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau ategol a fydd yn galluogi byrddau iechyd lleol i wneud taliadau uniongyrchol ar ran Gweinidogion Cymru. Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried, a'u defnyddio i helpu i ddrafftio'r canllawiau.

## Cefnogi'r hyn sy'n bwysig

*Set ddata genedlaethol i gofnodi sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig', gan gynnwys straeon digidol*

Mae gwaith archwilio wedi dechrau i ystyried sut y gellid bwrw ymlaen â dull cenedlaethol o gofnodi sgyrsiau ‘yr hyn sy'n bwysig’ yn gywir drwy ddatblygu set ddata genedlaethol i'w chasglu ar lefelau lleol.

Mae'r swyddogaeth Dadansoddi ac Arloesi yn y Swyddfa Genedlaethol yn ystyried sut i greu arolwg cenedlaethol sy'n targedu pob oedolyn sy'n derbyn gofal a chymorth, gyda'r nod o ddeall eu profiadau a'u llesiant yn well.

Mae cynnig wedi'i gyflwyno i sefydlu grŵp cenedlaethol a fydd yn cydweithio â'r Swyddfa Genedlaethol i fireinio'r cynllun hwn, ac mae rhanddeiliaid allweddol eisoes wedi cael gwybod er mwyn iddynt allu paratoi i gymryd rhan. Mae gwaith wedi dechrau ar lunio cwestiynau'r arolwg, a fydd yn cael eu profi cyn bo hir. Ar ôl ei gwblhau, bydd y prosiect yn symud i gam profi dichonoldeb cyn ei lansio'n llawn yn y blynyddoedd i ddod.

Disgwylir i'r prosiect hwn fod yn un hirdymor, a bydd cynllunio ar gyfer y gwaith hwn yn parhau fel rhan o gynllun gweithredu Cam 2.

*Diwygio Cod Ymarfer Rhan 2*

Rhaid i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gynhyrchu Asesiad o Anghenion y Boblogaeth (PNA) bob cylch etholiadol, fel sy'n ofynnol gan ganllawiau statudol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio grŵp gorchwyl a gorffen gydag arweinwyr cenedlaethol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Data Cymru) i baratoi'r adroddiad PNA nesaf ar gyfer Ebrill 2027. Bydd y grŵp hwn yn cydweithio ag arweinwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gysoni'r PNA ag Asesiadau Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac ystyried canllawiau asesu unedig. Mae canllawiau diwygiedig Cod Ymarfer Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) bellach wedi’u cyhoeddi.

## Partneru'n lleol o amgylch y person sydd angen cymorth

*Cefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol*

Cynhaliwyd gwaith i ddiweddaru'r canllawiau Rhan 9 ar drefniadau partneriaeth i gryfhau atebolrwydd am integreiddio a chyflwyno Swyddogion Cyfrifol Rhan 9 newydd ar gyfer cydweithredu o fewn pob awdurdod lleol a bwrdd iechyd i ddarparu llinellau atebolrwydd cliriach ochr yn ochr â'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.  Daeth y Canllawiau Rhan 9 wedi'u diweddaru i rym ym mis Mai 2025.

Mae offeryn adrodd canlyniadau cenedlaethol hefyd wedi'i ddatblygu ar gyfer adrodd yn erbyn y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) ac mae'n cynnwys 20 o fesurau cenedlaethol meintiol.  Defnyddir yr adnodd hwn i ddangos effaith ar draws prosiectau a modelau gofal a gyllidir ar y cyd, ac i roi syniad ynghylch i ba raddau y caiff iechyd a gofal cymdeithasol eu hintegreiddio.  Gellir ystyried yr adnodd adrodd hwn a'i addasu ar gyfer prosiectau a gwasanaethau mwy penodol a gaiff eu comisiynu os bydd angen.

Bydd mesurau perfformiad yn cael eu monitro a'u hadolygu'n barhaus trwy gydol cyfnod y RIF, a bydd manylion am y cynnydd blynyddol yn cael eu cynnwys yn natganiad sefyllfa'r System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS), https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-sefyllfa-system-gofal-cymunedol-integredig-0 yn ogystal â rhaglenni cysylltiedig eraill. Mae'r RIF yn cyfrannu at ddatblygiad ehangach yr ICCS i Gymru, ac mae data canlyniadau yn rhoi tystiolaeth werthfawr i lywio'r gwaith o ddylunio mentrau olynol yn y dyfodol.

Yn ogystal ag adroddiad RIF, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol sy'n manylu ar drefniadau comisiynu a chydgyllidebu. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i nodi gwersi ac arferion gorau gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wella mesur a chyflawni canlyniadau.

*Strategaeth a Chynllun Cyflawni Gofalwyr*

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb statudol i gefnogi gofalwyr di-dâl.

Nod y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yw gwella'r gydnabyddiaeth  o ofalwyr di-dâl a'r gefnogaeth iddynt. Mae'r Cynllun Cyflawni (2025-2026) wedi'i ddatblygu gyda rhanddeiliaid sy'n cynrychioli gofalwyr di-dâl, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a'r trydydd sector. Mae'r Cynllun yn nodi cyfres o flaenoriaethau strategol:

- Adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr
- Darparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy
- Helpu i fyw yn ogystal â gofalu
- Helpu gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

Ym mis Chwefror 2026, lansiwyd ymgynghoriad  ar Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Bydd y strategaeth ddrafft yn disodli'r un a gyhoeddwyd yn 2021

ac mae'n seiliedig ar yr hyn y mae gofalwyr di-dâl a'u sefydliadau wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru sydd bwysicaf iddyn nhw.

Mae'r Siarter ar gyfer gofalwyr di-dâl hefyd wedi'i chynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth.

*Seibiant*

Sefydlwyd y Cynllun Seibiannau Byr yn 2022 i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ofalwyr di-dâl gael seibiant o'u rolau gofalu, y tu hwnt i'r dyletswyddau presennol ar awdurdodau lleol i'w cefnogi. Yn ystod 2022-25, darparodd y cynllun seibiannau i dros 50,000 o ofalwyr di-dâl o bob oedran.

Roedd y Datganiad Ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2025 yn cyhoeddi'r ymrwymiad o'r newydd ar gyfer y cynllun tan ddiwedd mis Mawrth 2029. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol o £15.75m pellach.

Dim ond un agwedd ar ddarpariaeth seibiant yw seibiannau byr. Gall seibiant hefyd gynnwys trefniadau gofal dros nos amgen i'r person sydd ag anghenion gofal a chymorth.

*Adrodd ar Bwyntiau Gwirio Gofal Cymdeithasol i gynorthwyo meincnodi a dysgu ar lefel system*

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar baratoi'r set ddata Capasiti a Galw Gofal Cymdeithasol (y cyfeirid ati gynt fel Pwynt Gwirio) i'w chyhoeddi, ac mae'r dyddiad rhyddhau cychwynnol wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Mawrth 2026. Bydd cyhoeddi ystadegau capasiti a galw cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn helpu i ddangos yn glir beth yw ystod y galw ac ystod y gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan adlewyrchu gweithgarwch a chynnydd mewn angen. Mae'r fenter hon yn rhan o ymrwymiad y Swyddfa Genedlaethol i fod yn dryloyw ac agored, ac mae'n sicrhau bod data gofal cymdeithasol yn unol â gwybodaeth am wasanaethau iechyd sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd. Bydd cyhoeddi'r data hwn yn gwella dealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid ac yn hwyluso ymgysylltu gwybodus gan y sefydliadau a'r cyhoedd. Disgwylir i'r datganiad cyntaf ymdrin â chyflwyniadau sy'n dyddio'n ôl i Ebrill 2024, gan gynnig cyd-destun gwerthfawr ar gyfer ffigurau cyfredol a mewnwelediadau i dueddiadau tymor hir.

*Gofal Iechyd Parhaus (GIP)*

Mae canllawiau yn cael eu datblygu ar gyfer cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd y GIG i hyrwyddo offeryn digidol cenedlaethol ar gyfer goruchwylio gofal iechyd parhaus, gan gynnwys rheoli achosion, perfformiad a chyllid.

Mae datblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad ac archwilio technoleg AI hefyd yn flaenoriaethau allweddol.

## Buddsoddi mewn atal ac ymyrryd cynnar

Comisiynwyd ymchwil annibynnol i ddadansoddi gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau atal ac ymyrryd cynnar dros y degawd diwethaf. Roedd y fanyleb ymchwil a ddilynodd yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- nodi rôl gwasanaethau ataliol a gomisiynwyd, gan gynnwys:
- faint o gyllid a neilltuir i wasanaethau ataliol nawr
- faint o gyllid sydd wedi'i neilltuo i wasanaethau ataliol dros y 10 mlynedd diwethaf
- pa wasanaethau atal sydd ar gael i bobl, a
- sut mae pobl yn cael mynediad at y gwasanaethau ataliol hyn
- diffinio'r trefniadau presennol ar gyfer ariannu, darparu a thalu am wasanaethau ataliol a gomisiynwyd ar gyfer gofal cymdeithasol, mewn perthynas â gwariant a gweithgarwch gofal cymdeithasol ehangach
- disgrifio sut mae'r galw a'r cyllid am wasanaethau ataliol wedi newid (gan gyfeirio at weithgareddau gofal cymdeithasol ehangach, tueddiadau poblogaeth ac iechyd)
- ystyried sut y rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau ataliol yn newid yn y 5 a 10+ mlynedd nesaf
- ymgymryd ag ymchwil i ddarparu amcangyfrif o effaith gwasanaethau ataliol ar wariant y sector cyhoeddus (h.y. enillion ar fuddsoddiad) ac ar lesiant pobl
- amcangyfrif lefel y cyllid y byddai ei angen i gael gwasanaethau ataliol cynaliadwy, yn seiliedig ar lefel yr angen ac effaith atal

Daeth y cyfnod ymchwil i ben ym mis Rhagfyr 2025, a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2026. Bydd canfyddiadau'n cael eu hystyried yn ofalus, a defnyddir argymhellion i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol fel rhan o Gynllun Gweithredu Cam 2.

## Rôl elw yn y system ofal

*Cyfyngu ar elw o wasanaethau plant*

Ar 24 Mawrth 2025, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ('Deddf 2025') yn gyfraith yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys mesurau i gyfyngu ar wneud elw gan ddarparwyr cartrefi plant, llety diogel, a gwasanaethau maethu.

Fel rhan o'r broses o egluro beth yw elw a nodweddion sefydliadau nid-er-elw yng Ngham 1, mae Deddf 2025 yn diffinio endid 'nid-er-elw' (ac eithrio awdurdodau lleol) fel un:

- sydd â gwrthrychau neu ddibenion sy'n ymwneud yn bennaf â lles plant (neu unrhyw les cyhoeddus arall y gall Gweinidogion Cymru ei ragnodi); ac
  sy'n gweithredu o dan un o'r mathau canlynol o ymgymeriadau:
- cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau;
- sefydliad corfforedig elusennol;
- cymdeithas gofrestredig elusennol; neu
- gwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.

Mae'r ymrwymiad i gael gwared ar elw yn cael ei weithredu'n gyflym. Gan ddechrau ar 1 Ebrill 2026, nid yw darparwyr er elw newydd yn cael cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru, ac mae darparwyr er elw presennol wedi'u gwahardd rhag ychwanegu gwasanaethau neu leoedd newydd. Bydd cyfyngiadau ychwanegol yn cael eu cyflwyno yn 2027 a 2030, gan barhau i gyflwyno'r newidiadau'n raddol i leihau'r risg o darfu ar leoliadau.

Mae gwaith ar is-ddeddfwriaeth i gefnogi gweithredu yn parhau, gan gynnwys ymgynghoriad diweddar https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant ar ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau digonolrwydd blynyddol. Nod y cynlluniau hyn yw gwella cynllunio strategol, meithrin tryloywder, a chreu dull cynaliadwy o fynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc mewn gofal wrth i awdurdodau lleol ddileu elw o'u gweithrediadau.

*Ehangu'r ddarpariaeth uniongyrchol*

Mae cyfres o drafodaethau gweithdy wedi'u cynnull i hwyluso datblygiad System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS) i Gymru, ochr yn ochr ag ystyried cronfa gyfalaf a refeniw estynedig bosibl. Mae cynrychiolwyr o'r tîm Nodau Brys, y Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol, a Phartneriaethau ac Integreiddio wedi cymryd rhan mewn deialog ynghylch yr angen am ddull unedig o gymorth cymunedol ac ymyrraeth gynnar, gyda'r nod o leihau dyblygu a gwneud y gorau o ddyrannu adnoddau. Ar hyn o bryd, mae ffrydiau cyllido'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol (RIF), y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF) a'r Gronfa Tai â Gofal (HCF) yn ymestyn drwy fis Ebrill 2027, ac mae cyllid cyfalaf wedi'i nodi'n elfen hanfodol o ddarpariaeth ICCS wrth symud ymlaen. Mae glasbrint ICCS wedi'i adolygu i gyd-fynd â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac mae bellach yn ymgorffori cynnig ar gyfer fframwaith llywodraethiant , sy'n cael ei adolygu gan gadeiryddion ac arweinwyr strategol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

## Cyllid yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth cynaliadwy a phontio i ofal sydd am ddim pan fo'i angen

**Ymchwil – i ddeall yn well faint o gyllid sydd ei angen i ddarparu gofal cymdeithasol cynaliadwy**

Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud mewn perthynas â'r lefel uchaf o gyllid sydd ei hangen i gael gwasanaeth gofal cymdeithasol cynaliadwy yn sail i'r ymrwymiad ar gyfer cyflawni cynaliadwy yn y dyfodol fel rhan o Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, ac mae'n sicrhau bod sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol a gweithredu dilynol.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth drylwyr a manwl o'r gofynion ariannol ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol hirdymor cynaliadwy ac effeithiol, mae adolygiad mewnol helaeth wedi dadansoddi gwariant gofal cymdeithasol cyfredol ac wedi gwerthuso mecanweithiau cyllido'r sector presennol. Y nod yw rhag-weld heriau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â newidiadau demograffig, gofynion gofal sy'n newid, a chyfyngiadau economaidd.

I ategu'r dadansoddiad hwn, mae gwaith modelu ariannol rhagarweiniol wedi'i gynnal, gan dynnu ar ymchwil a gomisiynwyd yn ystod tymor y Senedd flaenorol a oedd yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr i'r galw am wasanaethau a ragwelir, gyrwyr costau, a strategaethau cyllido posibl. Drwy ymgorffori canfyddiadau ymchwil cynharach, mae'r adolygiad hwn yn adeiladu ar dystiolaeth sefydledig tra'n parhau i fod yn addasadwy i newidiadau polisi diweddar a datblygiadau yn y sector. Mae'r dull integredig hwn yn sicrhau bod unrhyw argymhellion ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ymatebol i anghenion gofal cymdeithasol sy'n esblygu.

Amcan parhaus y gwaith hwn yw sefydlu fframwaith ariannol clir a chadarn a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol yn barhaus, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn hygyrch, o ansawdd uchel ac yn gynaliadwy i bawb sydd eu hangen yn y blynyddoedd i ddod.

**Ymchwil – deall effeithiau ariannol a gweithredol gofal sydd am ddim pan fo'i angen**

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi effeithiau ariannol a gweithredol darparu gofal am ddim pan fo'i angen. Bydd canfyddiadau o Gam 1 yn llywio cynllun gweithredu Cam 2 ar gyfer 2026-28.

Mae ymdrechion yn parhau i fynd i'r afael â bylchau data, fel hunanariannu, i fireinio cwestiynau polisi ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Bwriedir y bydd gwaith modelu manwl yn asesu effeithiau ariannol a gweithredol cyflwyno gwasanaethau gofal amhreswyl am ddim pan fo'u hangen, ac y bydd y camau nesaf yn cynnwys ymestyn modelu i archwilio canlyniadau ariannol a gweithredol darparu gofal am ddim (ac eithrio costau llety) mewn lleoliadau gofal preswyl.

Mae hwn yn faes polisi cymhleth, gyda goblygiadau deddfwriaethol ar gyfer gweithredu. Felly, mae'n gofyn am ystyriaeth lawn, profion straen, ymgynghori ac archwilio gwersi a ddysgwyd yng ngwledydd eraill y DU ac enghreifftiau byd-eang.

O ystyried graddfa, pwysigrwydd ac arwyddocâd rhyng-ddibyniaethau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn, bydd angen rhagor o ymchwil fanylach yn y dyfodol i ystyried yn llawn yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer talu am wasanaethau gofal a chymorth, sut y gellid ariannu'r rhain, ac effeithiau gweithredol gofal sydd am ddim pan fo'i angen. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod yr opsiynau sydd ar gael yn cael eu hystyried yn llawn, ac unrhyw effeithiau a gaiff y rhain wrth inni  fwrw ymlaen â sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

**Ymchwil – dichonoldeb creu methodolegau ffioedd cenedlaethol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal**

Comisiynodd y Swyddfa Genedlaethol astudiaeth ddichonoldeb i ystyried sefydlu methodolegau ffioedd cenedlaethol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal, gan gynnwys Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu. Mae'r gwaith hwn yn gyson â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth.

Fel rhan o'r astudiaeth, cynhaliwyd ymgysylltiad helaeth ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a darparwyr. Adolygodd ymchwilwyr y dulliau presennol o osod ffioedd, gwerthuso eu hymarferoldeb, ac archwilio a fyddai mabwysiadu methodoleg ffioedd genedlaethol yn fuddiol i Gymru, gan ystyried adborth gan y sector. Roedd yr adroddiad a ddeilliodd o hyn yn cyflwyno  sawl argymhelliad a chynnig ar gyfer y camau nesaf.

Gyda gwaith ymchwil ac archwilio ychwanegol wedi'i gynllunio gan y Swyddfa Genedlaethol, gan adeiladu ar ganfyddiadau'r adroddiad, disgwylir i'r gwaith hwn symud ymlaen ymhellach drwy gamau dilynol rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

# Gweithredu'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol: Pontio o Gam 1 i Gam 2

## Adeiladu ar yr ymchwil bresennol

Bydd angen parhau a datblygu ymhellach ar sawl maes gwaith allweddol a gychwynnwyd yng Ngham 1 wrth i'r rhaglen drosglwyddo i Gam 2, gyda phwyslais arbennig ar weithgareddau ymchwil.

Bydd ymchwil i effeithiau ariannol a gweithredol darparu gofal am ddim pan fo'i angen yn parhau. Mae dadansoddiad parhaus yn ceisio deall goblygiadau gofal sydd am ddim pan fo'i angen, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â bylchau data, megis cynnwys hunan-ariannwyr, a datblygu modelu manwl i asesu canlyniadau ariannol a gweithredol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried cyflwyno gwasanaethau gofal amhreswyl am ddim ac yn ymestyn i werthuso effeithiau darparu gofal am ddim, ac eithrio costau llety, mewn lleoliadau preswyl. Oherwydd cymhlethdod a graddfa'r ymgymeriad hwn, bydd angen ymchwil fanwl ychwanegol i archwilio'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer ariannu gwasanaethau gofal a chymorth, ochr yn ochr â'r effeithiau gweithredol ehangach o ddarparu gofal am ddim pan fo'i angen. Mae'r Swyddfa Genedlaethol yn parhau i fod yn ymrwymedig i gydweithio'n agos â rhanddeiliaid i sicrhau ystyriaeth gynhwysfawr o'r holl opsiynau sydd ar gael a goblygiadau symud ymlaen tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

Mae dichonoldeb datblygu methodolegau ffioedd cenedlaethol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae gwaith dilynol, gan adeiladu ar y canfyddiadau hyn, wedi'i gynllunio wrth i'r rhaglen symud ymlaen drwy ei chamau yn y dyfodol, a bydd nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yng Ngham 2, gan dynnu ar argymhellion yr adroddiad.

## Gweithgaredd o Gam 1 a fydd yn gofyn am weithgarwch pellach yn ystod camau'r dyfodol

*Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth*

Mae cwblhau'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth, a weithredir trwy God Ymarfer statudol, yn garreg filltir arwyddocaol. Bydd angen ymdrechion parhaus i hwyluso ei weithredu ac i sicrhau bod comisiynwyr yn cadw at y gofynion a amlinellir yn y Cod yn gyson. Trefnwyd bod y Cod Ymarfer yn cael ei ddiweddaru bob dwy flynedd, ac mae'r adolygiad nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer 2027. Mae'r broses ddiweddaru hon bellach wedi'i hymgorffori mewn gweithdrefnau gweithredol safonol o fewn cangen gomisiynu y Swyddfa Genedlaethol.

Wrth i'r rhaglen symud ymlaen i Gam 2, bydd y meysydd gwaith canlynol yn parhau:

- Parhau i weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol, gan roi cymorth i gomisiynwyr ddeall a chymhwyso'r Cod Ymarfer statudol yn eu cyfrifoldebau.
- Monitro ac asesu arferion comisiynu systematig i gadarnhau cydymffurfiaeth â'r Cod a nodi cyfleoedd ar gyfer arweiniad neu gymorth ychwanegol.
- Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a chydgynllunio mentrau i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol a sicrhau bod y Fframwaith yn parhau i ymateb i ofynion esblygol y sector.
- Gweithgareddau paratoi ar gyfer y diweddariadau bob dwy flynedd o'r Cod, gan gynnwys casglu adborth a thystiolaeth i lywio diwygiadau yn y dyfodol.
- Integreiddio mewnwelediadau ac argymhellion o Gam 1 i weithrediadau cyfredol, gan lywio'r dull o gomisiynu trwy gydol Cam 2.

Bydd y dull strwythuredig hwn yn helpu i gynnal gweithrediad cadarn y Fframwaith Cenedlaethol, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

*Astudiaeth Dichonoldeb ar Fethodoleg Ffioedd ar gyfer Cartrefi Gofal i Oedolion*

Gan adeiladu ar yr adroddiad dichonoldeb a gwblhawyd ynghylch methodolegau ffioedd cenedlaethol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal, bydd Cam 2 yn cynnwys adolygiad trylwyr o ganlyniadau ac argymhellion yr adroddiad. Bydd gweithgareddau sy'n deillio o argymhellion a dderbynnir yn cael eu cario ymlaen i Gam 2.

*Ymgysylltu Parhaus ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol*

Mae ymgysylltu parhaus, ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a chydgynllunio yn elfennau annatod o'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Cynigir bod y camau hyn yn parhau trwy gydol y rhaglen.

*Mwy Na Geiriau*

Bydd y Swyddfa Genedlaethol, gyda chefnogaeth y Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, yn goruchwylio ac yn monitro gweithrediad strategaeth bum mlynedd Mwy Na Geiriau o fewn gofal cymdeithasol.

*Cofnodi sgyrsiau a chanlyniadau "yr hyn sy'n bwysig"*

Bydd Cam 2 yn blaenoriaethu datblygu proses genedlaethol safonol ar gyfer dogfennu sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' a chreu straeon digidol. Bydd hyn yn cynnwys astudiaeth ddichonoldeb a phrofi defnyddwyr yn 2025/26, dylunio a threialu offer cofnodi digidol yn 2026/27, a pharatoi ar gyfer eu cyflwyno ledled y wlad yn 2027/28.

*Gofalwyr di-dâl*

Er bod camau cychwynnol ynghylch gofalwyr di-dâl wedi'u cwblhau yng Ngham 1, bydd Cam 2 yn canolbwyntio ar werthusiad cynhwysfawr o'u heffaith ac yn ystyried gwelliannau pellach. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â gofalwyr i nodi anghenion sy'n dod i'r amlwg, datblygu mecanweithiau cymorth ychwanegol lle bo angen, ac integreiddio adborth gofalwyr i gynllunio polisi a rhaglenni i gynnal eu rôl hanfodol trwy gydol y camau dilynol.

*Gofal Iechyd Parhaus*

Yn dilyn yr adolygiad o bolisi Gofal Iechyd Parhaus (GIP) yng Ngham 1, bydd Cam 2 yn anelu at sicrhau bod y gwaith o gyflawni GIP yn cyd-fynd â chyflwyno taliadau uniongyrchol.

*Dileu Elw Preifat o Ofal Plant sy’n Derbyn Gofal*

Gan fod y gwaith sylfaenol o dan y rhaglenni Dileu ac Ailgydbwyso Gofal a Chymorth wedi'i gwblhau, bydd Cam 2 yn canolbwyntio ar lunio mesurau sydd wedi'u targedu a'u mireinio yn fwy, i sicrhau bod trawsnewid gwasanaethau plant yn parhau i fod wrth wraidd y rhaglen.

# Cynllun Gweithredu Cam 2 (2026-2028)

Mae'r gweithgareddau a'r ymchwil a gynhaliwyd yn ystod Cam 1 wedi gosod sylfeini cadarn i symud i gynllun Gweithredu Cam 2, a fydd yn cael ei arwain a'i gydlynu gan y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth.

Yn unol â'r dull a ddefnyddiwyd yng Ngham 1, bydd y gwaith o gyflawni'r cynllun yn parhau i gael ei wneud drwy gydweithio â'r sector a dinasyddion i gyflawni agweddau allweddol ar y cynllun, drwy weithio gyda Llais, y Fforwm Gwaith Teg, a'r Fforwm Arferion Da, rydym yn gwella ymgysylltiad â rhanddeiliaid a dinasyddion amrywiol.

Mae Fforwm Arweinyddiaeth y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn gwahodd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i gael trafodaeth agored gyda thimau'r Swyddfa Genedlaethol a'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn eu galluogi i archwilio'r rhwystrau sy'n ein hwynebu a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i oresgyn y rhain i sicrhau newid cadarnhaol mewn gofal cymdeithasol wrth inni symud ymhellach tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

Mae cydgynhyrchu yn un o egwyddorion craidd y Swyddfa Genedlaethol, a bydd ymgyngoriadau ehangach yn ymwneud â meysydd polisi penodol yn cael eu cynnal drwy gydol y cyfnod o symud tuag at y daith hon o ddiwygio.

**Rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol**

*Diweddariad ar Gyflawni Cynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1 a Chynllun Gweithredu Arfaethedig Cam 2*

Ar ôl ystyried y sylfeini cadarn sydd eisoes wedi'u sefydlu drwy gyflwyno cynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1 ac adolygu'r camau a nodir gan y Grŵp Arbenigol, mae'r tabl isod yn nodi gweithgarwch ac ymchwil arfaethedig a fyddai'n rhesymegol yn ffurfio cynllun gweithredu Cam 2.

Mae'r gweithgareddau a'r ymchwil a gynigir ar gyfer Cam 2 yn galluogi proses o adeiladu ar y sylfeini presennol a'r cynnydd hyd yma, a thrwy hynny hefyd sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli pwysau presennol a galwadau cynyddol tra hefyd yn symud yn agosach at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol i Gymru.

| Amcan | Rhaglen Cynllun Gweithredu Cam 2, 2026 - 28 |
|---|---|
| **Taith tuag at newid sylweddol** | |
| Ymgynghori ac ymgysylltu helaeth drwy gydol cyfnodau'r rhaglen | Bydd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth a'r Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yn parhau i ymgysylltu, cydgynhyrchu ac ymgynghori ar elfennau allweddol y gweithgarwch drwy gydol y rhaglen hon. |
| **Mynd i'r afael â'r anghydbwysedd pŵer** | |
| Casglu straeon dinasyddion | Coladu a dadansoddi Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn helpu i lywio adroddiad cenedlaethol newydd ar Gyflwr y Genedl a fydd yn cael ei ddefnyddio i lunio newidiadau yn y sector.  Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol o 2026 ymlaen |
| **Cydraddoldeb a chynhwysiant** | |
| Gwella lleisiau grwpiau amrywiol er mwyn llywio datblygiadau yn y dyfodol | Cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru, gyda pherchnogaeth camau gweithredu sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol.<br><br>Swydd Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol i barhau i helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol gan gysylltu ac ymgysylltu â gweithwyr cymdeithasol |
| **Cefnogi a gwerthfawrogi'r gweithlu gofal cymdeithasol** | |
| Datblygu fframwaith tâl a dilyniant cenedlaethol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol | Bydd y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn gwneud cynnydd tuag at greu lefelau cyflog, telerau ac amodau priodol ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol drwy:<br><br>• Cyhoeddi fframwaith cyflog a dilyniant gwirfoddol i ddarparwyr annibynnol ei fabwysiadu. Bydd hyn yn tynnu sylw at y cyfleoedd |

| Amcan | Rhaglen Cynllun Gweithredu Cam 2, 2026 - 28 |
|---|---|
| Sefydlu Uned Bargeinio ar y Cyd ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol | a'r rolau amrywiol, i symud ymlaen ac adeiladu gyrfa yn y sector gofal cymdeithasol a darparu lefelau cyflog bras (fydd yn cyd-fynd yn agos â'r sector iechyd lle bo hynny'n bosibl). Bydd y gwaith hwn yn cael ei adeiladu yn ystod y flwyddyn nesaf yn dilyn canfyddiadau ymchwil ar lefelau cyflog ar draws gofal cymdeithasol.<br><br>• Bydd y Bartneriaeth yn parhau i weithio gyda'r model cyhoeddedig o arferion gorau mewn perthynas â pholisïau AD y mae darparwyr a gweithwyr wedi'u blaenoriaethu fel rhan o arolwg. Dyma nhw: Cytundebau Cydnabod, Iechyd a Diogelwch (gan gynnwys trais yn y gweithle) a Chwynion a Disgyblu, i ddarparwyr annibynnol eu mabwysiadu, gyda'r nod o ddod â chysondeb i delerau ac amodau ar draws y sector gofal cymdeithasol.<br><br>• Bwrw ymlaen â'r gwaith i ddatblygu Cytundebau Cyflog Teg ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy Fil Hawliau Cyflogaeth Llywodraeth y DU. Mae hyn yn cynnwys y datganiad a gyhoeddwyd ar y broses o ddatblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru drwy reoliadau, a fydd, drwy drefniadau bargeinio ar y cyd, yn gweithio i osod Cytundebau Cyflog Teg mewn gofal cymdeithasol yn ystod 2027. Bydd sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol yn newid mawr, gan y bydd yn golygu y gellir cyflwyno Cytundebau Cyflog Teg gorfodadwy ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol am y tro cyntaf.<br><br>• Ystyried sut y gallwn gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr tramor i reoli effaith newidiadau Fisâu a Mewnfudo y DU sydd â'r potensial i roi pwysau ychwanegol ar recriwtio o fewn y sector gofal cymdeithasol.<br><br>• Yn ystod y 12 mis cyntaf o ddatblygu Academi Gofal Cymdeithasol Genedlaethol, byddwn yn canolbwyntio ar roi sylfeini cryf ar waith. Bydd hyn yn cynnwys mapio'r ddarpariaeth hyfforddiant a dysgu bresennol ledled Cymru, cofnodi effaith academïau gofal lleol cyfredol, a chydgynllunio pwrpas, swyddogaethau a blaenoriaethau'r Academi gyda rhanddeiliaid. Byddwn hefyd yn datblygu brand a chyfathrebu clir i helpu i gyhoeddi gweledigaeth ac amcanion cenedlaethol a rennir. Bydd y gwaith sylfaenol hwn yn llywio'n uniongyrchol y cam |

| Amcan | Rhaglen Cynllun Gweithredu Cam 2, 2026 - 28 |
|---|---|
| | nesaf, a fydd yn symud i weithredu'n gynnar ac yn nodi'r camau tymor hwy sydd eu hangen i sefydlu Academi Gofal Cymdeithasol Genedlaethol Cymru yn llawn.<br><br>**YMCHWIL**<br>Bydd y Fforwm Gwaith Teg yn modelu cost a lefel y cyllid sydd eu hangen i weithredu'r Fframwaith Tâl a Dilyniant, cyn i'r Swyddfa Genedlaethol archwilio opsiynau ar gyfer gweithredu cyfundrefn codi tâl ddiwygiedig yn raddol. |
| **Gofalwyr di-dâl** | |
| Gwell cydnabyddiaeth a chefnogaeth i ofalwyr di-dâl | Mae cydnabyddiaeth a chefnogaeth i ofalwyr yn flaenoriaeth yn y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl gyfredol, a gyhoeddwyd yn 2021 a byddant yn parhau i fod yn amcanion strategol allweddol yn y strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2026 yn dilyn asesiad o'r ymateb i'r ymgynghoriad a lansiwyd ym mis Chwefror 2026. |
| **Seibiant** | |
| Buddsoddiad parhaus ar gyfer darpariaeth gofal seibiant hyblyg | Mae'r Gweinidog wedi cadarnhau ymrwymiad i gynllun Seibiannau Byr Llywodraeth Cymru am 3 blynedd arall, hyd at fis Mawrth 2029. |
| **Gwirfoddolwyr mewn gofal a chymorth** | |
| Ymgysylltu â sefydliadau'r trydydd sector a gwirfoddolwyr | Drwy sesiynau ymgysylltu a gwrando a gynhelir gan y Swyddfa Genedlaethol a'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, bydd cyfleoedd i sefydliadau, cymunedau a'r gweithlu ddod yn rhan o sgyrsiau am gynllunio'r Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.<br><br>Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer egwyddorion cynllunio ar ôl iddynt gael eu datblygu. |
| **'Egwyddorion cynllunio' newydd ar gyfer gofal cymdeithasol** | |

**Rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol**

*Diweddariad ar Gyflawni Cynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1 a Chynllun Gweithredu Arfaethedig Cam 2*

| Amcan | Rhaglen Cynllun Gweithredu Cam 2, 2026 - 28 |
|---|---|
| Creu egwyddorion cynllunio cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol | Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn rhoi help llaw canolog i'r sector, gan hwyluso arweinyddiaeth gadarnhaol i sicrhau ymgyrch newid diwylliant i gryfhau proffil y sector gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu gwaith ar ddiwylliannau cadarnhaol.<br><br>Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gyda'i Fforwm Arweinyddiaeth, Fforwm y Bobl, y Grŵp Cynghori Strategol a rhanddeiliaid allweddol i gydgynhyrchu set ddrafft o egwyddorion cynllunio cenedlaethol, y byddant yn ymgynghori'n ffurfiol arnynt yn ystod rhan olaf Cam 2 gyda'r bwriad o weithredu'r rhain yng Ngham 3. |
| **Budd ehangach sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig'** | |
| Mesur canlyniadau a'r 'hyn sy'n bwysig' i bobl | Ystyried opsiynau i ddatblygu arolwg defnyddwyr gwasanaeth oedolion cenedlaethol i fesur profiadau gofal cymdeithasol a'r hyn sy'n bwysig i bobl. Bydd angen i'r gwaith gynnwys:<br>• Cysyniad dylunio<br>• Dichonoldeb a phrofi’r arolwg<br>• Canfod cyllid<br><br>Cynigir gweithredu ar gyfer Cam 3 (2029 ymlaen).<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda CLlLC ar weithredu Cysylltu Gofal ar draws adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. |
| **Sefydlu diwylliant 'dolen ddysgu'** | |

**Rhaglen y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol**

*Diweddariad ar Gyflawni Cynllun Gweithredu Cychwynnol Cam 1 a Chynllun Gweithredu Arfaethedig Cam 2*

| Amcan | Rhaglen Cynllun Gweithredu Cam 2, 2026 - 28 |
|---|---|
| Adeiladu arferion gorau a dysgu o fewn y system gofal cymdeithasol | Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn parhau i weithio gyda'r sector i amlygu a hyrwyddo arferion nodedig drwy'r Fforwm Arferion Da sy'n galluogi fforwm agored i rannu arferion da mewn dolen ddysgu, gyda'r dull thematig yn cael ei arwain gan aelodau'r grŵp o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol.<br><br>Cyflwynir adroddiadau blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Lywodraeth Cymru, a bydd y Swyddfa Genedlaethol yn parhau i ddefnyddio'r adroddiadau hyn ac adroddiadau eraill i ddatblygu adroddiadau blynyddol ar Gyflwr y Genedl.<br><br>Cyhoeddi data ynghylch galw a chapasiti gofal cymdeithasol a chyhoeddi adroddiadau cenedlaethol yn flynyddol gan y Swyddfa Genedlaethol.<br><br>Mae data capasiti a galw gofal cymdeithasol yn cael eu coladu'n fisol fel 'data pwynt gwirio'. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn arwain ar y cam nesaf o symud i gyhoeddi'r set ddata hon. |
| **Gofal Iechyd Parhaus (GIP)** | |
| Adolygu a gweithredu fframwaith GIP diwygiedig a chyflwyno taliadau uniongyrchol o fewn Gofal Parhaus y GIG | Mae'r ddogfen '*Gofal Iechyd Parhaus y GIG – Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer gweithredu yng Nghymru'* bresennol yn cynnwys ymrwymiad i adolygu'r Fframwaith o fewn pum mlynedd ar ôl ei roi ar waith. Bydd yr adolygiad o'r Fframwaith GIP yn digwydd a bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi o fewn y cyfnod 2026-28.<br><br>Mae Rhan 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a fydd yn galluogi cyflwyno taliadau uniongyrchol o fewn Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Ymgynghorwyd ar reoliadau o dan y Ddeddf ac rydym yn bwriadu gweithredu Taliadau Uniongyrchol fel opsiwn i'r rhai sy'n gymwys i gael GIP o fis Ebrill 2026 ymlaen. |
| **Buddsoddi mewn atal ac ymyrraeth gynnar** | |

| Amcan | Rhaglen Cynllun Gweithredu Cam 2, 2026 - 28 |
|---|---|
| Deall y buddsoddiad cyfredol mewn gwasanaethau ataliol a deall beth yw'r lefel uchaf o gyllid sydd ei hangen mewn Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. | Gweithgaredd Cam 2 i'w gadarnhau a'i symud ymlaen ar ôl derbyn adroddiad ymchwil Cam 1 a ddisgwylir erbyn diwedd mis Mawrth 2026. |
| **Codi tâl am ofal cymdeithasol i oedolion** | |
| Deall beth yw'r lefel uchaf o gyllid sydd ei hangen i ddarparu gofal cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru | **YMCHWIL**<br>Dadansoddi'r data a gasglwyd yn ystod Cam 1 mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, i asesu'r pwysau presennol ar y gwasanaeth fel rhan o ystyriaethau cyllido cynaliadwy. Bydd y gwaith hwn yn anelu at egluro'r dirwedd ariannu bresennol ac yn cynnwys ymarferion modelu cadarn i nodi unrhyw ddiffygion cyllid presennol, a thrwy hynny gyfrannu at ddealltwriaeth gliriach o'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni system gofal cymdeithasol gynaliadwy. |

| Amcan | Rhaglen Cynllun Gweithredu Cam 2, 2026 - 28 |
|---|---|
| Deall effaith ariannol a gweithredol symud at ofal sydd am ddim pan fo'i angen | **YMCHWIL**<br>Ymgymryd â modelu i asesu effeithiau ariannol a gweithredol gwneud gwasanaethau gofal amhreswyl yn rhai sydd am ddim pan fo'u hangen. gan ddechrau gyda ffocws ar oblygiadau gweithredol ac ariannol pontio i'r dull hwn.<br><br>Yna, ymgymryd â modelu i archwilio canlyniadau ariannol a gweithredol ymestyn gofal am ddim (ac eithrio costau llety) i leoliadau gofal preswyl. |
| Asesu dichonoldeb creu methodolegau ffioedd cenedlaethol ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal (pobl hŷn) | Yn seiliedig ar allbwn yr adroddiad dichonoldeb a gomisiynwyd yng Ngham 1 – bwrw ymlaen â gweithgareddau pellach sy'n cyd-fynd â'r canfyddiadau a'r argymhellion a wnaed.<br><br>Cynnal adolygiad trylwyr, gan adeiladu ar ganfyddiadau ymchwil Cam 1 mewn perthynas â methodolegau ffioedd, i wahaniaethu'n benodol rhwng 'costau gofal' (sy'n cwmpasu'r cymorth uniongyrchol a'r gofal personol a ddarperir) a 'chostau llety', y mae'n rhaid eu diffinio'n glir a'u rhannu'n elfennau penodol fel bwyd, cyfleustodau a thai. Bydd yr adolygiad yn adlewyrchu bod costau llety yn adlewyrchu'r egwyddor bod pawb yn gyfrifol am eu costau byw eu hunain, waeth beth fo'u hanghenion gofal, tra bod costau gofal yn cael eu trin ar wahân i sicrhau eglurder a thegwch mewn trefniadau codi tâl.<br><br>Cynnal a chynnal y polisi statudol presennol, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, drwy sicrhau bod unigolion yn cael eu cefnogi i arfer eu hawl i ddewis eu llety gofal preswyl. Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddeall yn well unrhyw rwystrau i gymhwyso'r |
| Gwahaniaethu rhwng costau gofal a chostau llety o fewn methodolegau ffioedd | |

| Amcan | Rhaglen Cynllun Gweithredu Cam 2, 2026 - 28 |
|---|---|
| | polisi hwn yn ymarferol, er mwyn mynd i'r afael â heriau fel rhan o waith ehangach i symud ymhellach tuag at ein Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. |
| **Yr angen am fwy o ddata** | |
| Defnyddio data yn fwy effeithiol | Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn goruchwylio'r Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, casgliadau cyfrifiadau blynyddol ar gyfer plant, oedolion a gofalwyr di-dâl a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, gan ddefnyddio data i ddatblygu dangosyddion a gweithio gydag awdurdodau lleol ar sut y dylid dehongli data.<br><br>Bydd y Swyddfa Genedlaethol yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar 'gyflwr y genedl' i ddarparu trosolwg cenedlaethol o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol – adroddiad cyntaf Mawrth 2026 |
| **Rôl elw yn y system ofal** | |
| Rhannu'r hyn a ddysgwyd o ddileu elw o wasanaethau gofal cymdeithasol i blant a theuluoedd | Parhau i roi'r rhaglen dileu elw o wasanaethau plant ar waith, a defnyddio'r hyn a ddysgwyd i lywio model darpariaeth y Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol o Gam 3 |
| Ailgydbwyso gofal drwy ehangu'n raddol y ddarpariaeth uniongyrchol o wasanaethau gofal | Bydd y cyllid cyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso yn parhau tan ddiwedd mis Mawrth 2027.<br><br>Ystyried cyllid yn y dyfodol ar ôl mis Mawrth 2027 |
| Sefydlu mecanwaith trosolwg o'r farchnad genedlaethol a deall gwerth o fewn gwasanaethau a gomisiynir | **YMCHWIL** – Dechrau gweithio gyda chomisiynwyr i fesur gwerth (gan gynnwys gwerth cymdeithasol) sy'n deillio o wasanaethau gofal cymdeithasol a gaiff eu darparu'n uniongyrchol a'u comisiynu. |
| | Datblygu mecanwaith cenedlaethol Trosolwg o'r Farchnad i fonitro cynaliadwyedd darparwyr a datblygu adroddiad cenedlaethol ar sefydlogrwydd y farchnad cenedlaethol i'w gyhoeddi o 2008/9 ymlaen |
| | Rhoi'r rhaglen Dileu Elw ar waith ar draws gwasanaethau plant |